Boneddiges y Wig

Trefn bywyd / Gofal

Yn ystod mis Mai bydd glöyn byw bach gwyn a blaenau ei adenydd yn oren, yn deor o'i chwiler. Mae hwn yn un o loynnod byw cynta'r gwanwyn. Bydd y fenyw yn dodwy wyau oren ar flodau llefrith sy'n tyfu yn y gors. Bydd y fenyw yn dodwy un ŵy ar bob planhigyn. Mae yna reswm am hyn. Pan mae'r lindys yn fychan mae'n nhw'n ganibaliaid. Bydd y lindys yn mynd ati i fwyta'i gilydd. Bydd lindys mwy na'i gilydd yn bwyta'r rhai llai. Felly i rwystro hyn mae'r glöyn yn dodwy ŵy fesul planhigyn. Ar ôl i'r lindys ddeor o'r ŵy byddan nhw'n mynd ati i fwyta plisgyn yr wy. Mae'r plisgyn yn llawn protîn. Ar ôl gwledda ar y plisgyn bydd y lindys yn symud wedyn at weddill y planhigyn. A dyna fydd eu hanes wedyn – bwyta a bwyta'n awchus.

Ar ôl mis o lenwi'i fol bydd y lindysyn wedi bwrw'i groen bump o weithiau. Y cam nesaf fydd chwileru ynghanol y tyfiant. Mae siâp diddorol iawn i chwiler y glöyn hwn – siâp bwmerang. Ar ôl iddo chwileru bydd yn aros yn y tyfiant am weddill y flwyddyn a thros y gaeaf.

Ond mae yna un ffaith ddiddorol arall mae gwyddonwyr wedi ei ddarganfod yn ddiweddar. Pan fydd y lindys bach yn deor o'r wyau bydd y blodyn yn dechrau marw. Pan fydd y lindys yn tyfu bydd yn cael mwy o faeth o'r hadau na'r dail a'r blodau. Felly mae yna drefn bendant i'r cylchred – bywyd.

O Dduw,
mae yna drefn yn dy fyd.
Weithiau dydw i ddim yn gallu gweld trefn
pan mae'r daeargryn yn ysgwyd y ddaear
mae llawer o bobl yn cael eu lladd
pan mae'r flocanô yn ffrwydro
mae llawer o bobl yn cael eu lladd
pan fydd damwain ar y ffordd neu yn yr awyr
bydd llawer o bobl yn cael eu lladd.
Bryd hynny dydw i ddim yn gweld trefn o gwbl.
O Dduw
mae yna lawer o bethau sy'n fy mhoeni yn y byd,
plant tebyg i ni yn marw,
marw o newyn
marw o afiechyd
marw o haint.
Helpa fi, O Dduw, i weld trefn yn y byd. Amen.

✦ Oes yna drefn ym myd natur? Fyddech chi'n dweud ei bod hi'n anodd gweld fod trefn yn y byd.
✦ Chwiliwch am fwy o wybodaeth am Foneddiges y Wig.